



# Ysgol Cymerau

## Polisi Grym Rhesymol



### Nod

Ymateb i ofynion Adran A550A Deddf Addysg 1996 a Chylchlythyr 37/98 y Swyddfa Gymreig i sicrhau fod yr ysgol, yr athrawon a phersonau awdurdodedig eraill yn nodi ac yn gwneud defnydd priodol o 'Rym Rhesymol' pan yn defnyddio strategaethau i ddiogelu plant, staff ac eiddo.

### Canllawiau

1. Mae pob athrawes a staff ategol a gyflogir gan yr awdurdod yn berson awdurdodedig ar gyfer defnyddio grym rhesymol.
2. Bydd y Corff Llywodraethol yn sicrhau fod pob aelod o staff sydd yn gorfod ymyrryd yn gorfforol â disgyblion yn deall yn glir y dewisiadau a'r strategaethau sydd ar agor iddynt. Hysbysir rhieni o'r drefn drwy ddatganiad am y polisi yn llawlyfr yr ysgol.
3. Rhaid trafod y maes hwn yng ngoleuni canllawiau Awdurdod Addysg Gwynedd ynglŷn ag Arfarnu Risg  
Sefyllfaoedd lle gall ymyrraeth gorfforol fod yn addas neu'n angenrheidiol  
Y Defnydd o Rym Rhesymol  
Cofnodi Digwyddiadau  
Gweithredu ôl ddigwyddiadau, cynnal staff ac adrodd i rieni  
Gweithdrefnau cwyno ac amddiffyn plant.
4. Bydd y Corff Llywodraethol yn sicrhau fod yr ysgol yn cynnig cymorth a chynhalieth yn ddi-oed i aelodau'r staff oedd ynghlwm â'r digwyddiad. Bydd y Corff Llywodraethol yn sicrhau fod yr ysgol yn cynnig cymorth i'r disgybl, a chynhalieth i'r disgybl i gynnwys ei farn am yr amgylchiadau yn arwain at y digwyddiad yn ogystal â'r digwyddiad ei hun.
5. Yn dilyn derbyn cwyn ysgrifenedig bydd y pennaeth neu Cadeirydd y Corff Llywodraethol yn dilyn Canllawiau Amddiffyn Plant.

### Casgliad

Mae Corff Llywodraethol Ysgol Cymerau yn derbyn ac yn gweithredu Canllawiau Awdurdod Addysg Gwynedd ynglŷn â defnyddio Grym Rhesymol.

Mabwysiadwyd 19-06-14 Adolygir yn flynyddol Adolygwyd 21-05-15

Arwyddwyd \_\_\_\_\_.

Cadeirydd y Llywodraethwyr

° Adolygir y polisi'n flynyddol / yn dilyn unrhyw ddiwygiadau i ganllawiau'r Cynulliad a / neu'r Awdurdod Lleol / yn dilyn digwyddiad o fewn yr ysgol

# Ysgol Cymerau

## Ataliaeth Gorfforol o Ddisgyblion

I atgoffa staff o'r hyn y **DYLENT** ac **NA DDYLENT** ei wneud

### **DYLECH**

1. Wybod y gweithdrefnau o fewn canllawiau'r ysgol ar gyfer defnyddio ataliaeth gorfforol. (Copi yn y Ffeil Polisiau Rheolaethol)
2. Drafod y rhain gyda'r Pennaeth, y Dirprwy Bennaeth neu athrawes os ydych yn ansicr ynglŷn ag unrhyw bwynt.
3. Fod yn ymwybodol o ddisgyblion a ataliwyd yn gorfforol o'r blaen, ac o'r hyn ddigwyddodd.
4. Anfon am gymorth oedolyn yn fuan os yw pethau'n mynd o chwith a bod ataliaeth yn debygol.
5. Asesu'r sefyllfa cyn gweithredu.
6. Aros yn ddi-gynnwrf – peidiwch â gorymateb.
7. Ddefnyddio cyn lleied o ataliaeth am gyn lleied o amser ag sy'n bosibl.
8. Hysbysu'r Pennaeth neu'r Dirprwy Bennaeth o'r digwyddiad cyn gynted ag y bo modd gan gwblhau'r ffurflen adroddiad yn dilyn cyngor gan Gymdeithas Broffesiynol Uwch neu gynrychiolydd Undeb Llafur.
9. Ymgynghori â'ch Cymdeithas Broffesiynol neu eich Undeb Llafur os oes gennych unrhyw bryderon.
10. Gofio am eich cyfrifoldebau proffesiynol i bob disgybl yn eich gofal.
11. Wneud yn siwr bod eich dwylo yn y golwg bob amser gan osgoi cyffwrdd rhannau cenedlol.

### **NI DDYLECH**

1. Roi eich hunan mewn perygl; peidiwch â cheisio atal disgybl sy'n amlwg yn cario 'arf'.
2. Ceisio atal disgybl pan fyddwch wedi colli eich tymer.
3. Arael i'r sefyllfa fynd tu hwnt i reolaeth.
4. Ddefnyddio grym gormodol e.e. dal y gwddf, dal y disgybl â'i ðyneb at y llawr.
5. Osod eich hunan mewn perygl o gael eich camgyhuddo; osgowch fod ar eich pen eich hun gydag unrhyw ddisgybl